

Urdd Gobaith Cymru

Rhestr Testunau

Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro

26-31 Mai, 2025



Rhestr Testunau

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro

26-31 Mai, 2025

Llio Elain Maddocks

Cyfarwyddwr y Celfyddydau

Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST

Ffôn: 01678 541014

Ebost: lliomaddocks@urdd.org

Adran yr Eisteddfod

Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST

Ebost: eisteddfod@urdd.org

Mae'r Urdd yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth a chydweithrediad y partneriaid canlynol er mwyn cynnal cystadlaethau amrywiol: Colegau Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Prifysgol Caerdydd, IntoFilm, Mudiad Meithrin, Cyngor Llyfrau Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, Newyddion S4C ac Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, a Cymdeithas Edward Llwyd.



Urdd

Cynnwys

Gwybodaeth Gyffredinol

| | |
|--|----|
| Gair o Groeso..... | 4 |
| Cân Croeso..... | 5 |
| Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru..... | 6 |
| Rheolau Cyffredinol..... | 7 |
| Beth ydy Eisteddfod?..... | 7 |
| Terminoleg..... | 8 |
| Enwau Swyddogol Canghennau'r Urdd..... | 8 |
| Polisi Iaith..... | 8 |
| Pwy sy'n cael cystadlu?..... | 8 |
| Dysgwyr..... | 8 |
| Sut mae mynd ati i gystadlu?..... | 8 |
| Rheolau Eisteddfod..... | 8 |
| Gweithdrefnau a phrosesau..... | 9 |
| Hunan-ddewisiad a Hawlfraint..... | 10 |
| Sut i Gystadlu..... | 11 |
| Dyddiadau i'w Cofio..... | 13 |
| Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru..... | 14 |
| Cyfeiriadau Cyhoeddwy..... | 15 |

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

| | |
|----------------------------------|----|
| Cerddoriaeth Lleisiol..... | 17 |
| Canu Gwerin..... | 23 |
| Cerddoriaeth Offerynnol..... | 24 |
| Band/Artist unigol..... | 29 |
| Cerdd Dant..... | 30 |
| CogUrdd..... | 33 |
| Dawnsio Gwerin..... | 33 |
| Dawns..... | 36 |
| Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo..... | 37 |
| Llefaru..... | 38 |
| Siarad Cyhoeddus..... | 40 |
| Theatr..... | 40 |
| Trin Gwallt a Harddwch..... | 44 |

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

| | |
|---|----|
| Cynllunio Crys T..... | 47 |
| Cymeriad Cartŵn..... | 47 |
| Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au)..... | 47 |
| Llun 2D..... | 47 |
| Gwaith Creadigol 2D..... | 48 |
| Graffeg Cyfrifiadurol..... | 48 |
| Ffotograff Wedi'i Addasu..... | 49 |
| Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn..... | 49 |
| Ffotograffiaeth: Llun Lliw..... | 49 |
| Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn..... | 49 |
| Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw..... | 50 |
| Argraffu..... | 50 |

Clic!

Clicia ar unrhyw un o'r
adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

| | |
|---|----|
| Tecstilau Creadigol..... | 50 |
| Creu Tecstilau..... | 51 |
| Ffasiwn..... | 51 |
| Pypedau..... | 51 |
| Gwaith 3D..... | 52 |
| Uwchgylchu..... | 52 |
| Serameg..... | 53 |
| Gemwaith..... | 53 |
| Dylunio a Thechnoleg..... | 53 |
| Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg..... | 54 |
| Ysgoloriaeth Artist Ifanc..... | 54 |
| Cyfansoddi Cerddoriaeth..... | 55 |
| Cyfansoddi Cerdd Dant..... | 56 |
| Cyfieithu..... | 56 |
| Darlunio Llyfr Stori-a-llun..... | 57 |
| Creu Ap..... | 57 |
| Creu Gwefan..... | 58 |
| Cynnwys Digidol..... | 58 |
| Adolygu Ffilm..... | 59 |
| Creu Ffilm..... | 59 |
| Gofal Plant..... | 60 |
| Prosiect Gwyddonol..... | 60 |
| Llenyddiaeth: Barddoniaeth..... | 61 |
| Llenyddiaeth: Rhyddiaith..... | 62 |
| Dysgwyr: Llenyddiaeth - Rhyddiaith..... | 63 |
| Dysgwyr: Medal y Dysgwyr..... | 64 |
| Dysgwyr: Medal Bobi Jones..... | 65 |
| Dysgwyr: Gwaith Llafar wedi'i Recordio..... | 65 |
| Cyst. Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd..... | 66 |
| Ysgoloriaeth Geraint George..... | 66 |
| Meithrin Talent - Talent Meithrin..... | 67 |
| Newyddiaduraeth..... | 67 |
| Ysgrifennu Traethawd Meddygol..... | 68 |
| Cyfansoddi: Drama..... | 68 |
| Eisteddfod T..... | 69 |

Arall

| | |
|--|----|
| Rhestr Tlysau a Gwobrau..... | 70 |
| Eithriadau Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth..... | 73 |



Gair o Groeso

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025 eisoes yn argoeli i fod yn Eisteddfod i'w chofio gyda gwirfoddolwyr yr ardal yn gweithio'n ddiflino ac yn ddiwyd er mwyn sicrhau hynny ar y cyd â gwirfoddolwyr cenedlaethol ac wrth gwrs, staff arbennig ac angerddol yr Urdd. Mae'r trefniadau'n mynd yn esmwyth - ond rydym angen eich help chi wrth sicrhau llwyddiant yr ŵyl, gan fod angen cystadleuwyr arnom ni! Tybed os mai 2025 fydd dy flwyddyn fawr di fel cystadleuydd? Does ond un ffordd o ddod i wybod, sef drwy roi cynnig arni! Yn hynny o beth, mae'r cam cyntaf yn y gyfrol hon, sy'n cynnwys testunau ar gyfer pob cystadleuaeth. Yn sicr, mae rhywbeth at ddant pawb yng nghystadlaethau'r ŵyl arbennig hon a chyfleoedd euraidd i ddatblygu a meithrin doniau creadigol, perfformio a chyfansoddi ein plant a'n pobl ifanc. Hoffwn annog pob un o aelodau'r Urdd i ymarfer eu doniau, ym mha bynnag feysydd y bônt gan ddymuno'r gorau iddynt wrth fynd ati i greu a pharatoi. Yn anad dim, mawr obeithiaf y bydd ein hieuenctid yn mwynhau'r broses - boed hynny yn gymdeithasol wrth gyd-ymarfer â chyfoedion mewn cystadlaethau torfol neu wrth iddynt weithio'n unigol a chael boddhad wrth weld ffrwyth eu llafur yn datblygu.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r hyfforddwyr a'r rhai hynny a fydd yn chwarae rhan mor flaenllaw yn annog ein plant a'n pobl ifanc i gystadlu drwy gyflwyno'r testunau ar lawr y dosbarth, yn y cartref ac yn gymdeithasol mewn clybiau ac Aelwydydd. Wrth gynnig y cyfleoedd hyn, rydych yn cynnig llawer mwy na chyfle i gystadlu - y mae'n gyfle i ddatblygu hyder ac yn fodd o greu atgofion gwerthfawr.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n gynnes i Barc Margam, i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025.

GWENNO MAIR DAVIES
Cadeirydd Bwrdd y Celfyddydau

Cân Croeso

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr 2025

Adar brith a ddaeth o bell
I'n cwmwd ni am fywyd gwell
O amryw blu o amryw le
Yw'n pobol ni mewn gwlad a thre'
Heddiw'n dyrfa, heddiw'n un
Mewn croeso twym i chi'n gytûn

Trwy fŵg a lluwch hen hanes hon
Mi gwyd aderyn uwch y don
Dros draethau gwyn, tros foelydd llwm
Uwch doeon llwydion llethrau'r cwm
O gochni'r machlud uwch y dur
I gymunedau'r galon bûr

Hed aderyn, esgyn fry
Tywys bawb i'n bro bach ni
Hed aderyn estyn gri
Uwch ein llwyfan ger y lli
Mewn llun a cherdd
A chorn a chôr
Mi ganwn groeso Dur a Môr

Bu copor gloyw'n gwefru'r tir
Afonydd glo yn duo'r sir
Yma ddoe bu adar to
Yn crafu maeth o'r domen lo
Ond nawr mae'r Barcud oddi fry
A'r alarch wen yn harddu'r lli

Mae'r dyddiau tywyll du ar ben
A ninne heddiw'n agor llen

Hed aderyn, esgyn fry
Tywys bawb i'n bro bach ni
Hed aderyn estyn gri
Uwch ein llwyfan ger y lli
Mewn llun a cherdd
A chorn a chôr
Mi ganwn groeso Dur a Môr

HUW CHISWELL A BRONWEN LEWIS

Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

| | | | | | |
|--------|--------------------------------|------|--------------------------|------|--------------------------------|
| 1929 | Corwen | 1965 | Caerdydd | 1997 | Islwyn |
| 1930 | Caernarfon | 1966 | Caerdybi | 1998 | Llŷn ac Eifionydd |
| 1931 | Abertawe | 1967 | Caerfyrddin | 1999 | Llanbedr Pont Steffan a'r Fro |
| 1932 | Machynlleth | 1968 | Llanrwst | 2000 | Bro Conwy |
| 1933 | Caerffili | 1969 | Aberystwyth | 2001 | Gŵyl yr Urdd |
| 1934 | Hen Golwyn | 1970 | Llanidloes | 2002 | Caerdydd a'r Fro |
| 1935 | Caerfyrddin | 1971 | Abertawe | 2003 | Tawe, Nedd ac Afan |
| 1936 | Blaenau Ffestiniog | 1972 | Y Bala | 2004 | Ynys Môn |
| 1937 | Gwaun-cae-gurwen | 1973 | Pontypridd | 2005 | Canolfan y Mileniwm |
| 1938 | Aberystwyth | 1974 | Y Rhyl | 2006 | Sir Ddinbych |
| 1939 | Llanelli | 1975 | Llanelli | 2007 | Sir Gâr |
| 1940 | Y Rhyl | 1976 | Porthaethwy | 2008 | Sir Conwy |
| 1941-5 | <i>Bwlch yn ystod y Rhyfel</i> | 1977 | Y Barri | 2009 | Bae Caerdydd |
| 1946 | Corwen | 1978 | Llanelwedd | 2010 | Ceredigion |
| 1947 | Treorci | 1979 | Maesteg | 2011 | Abertawe a'r Fro |
| 1948 | Llangefni | 1980 | Abergele | 2012 | Eryri |
| 1949 | Pontarddulais | 1981 | Castell Newydd Emlyn | 2013 | Sir Benfro |
| 1950 | Wrecsam | 1982 | Pwllheli | 2014 | Meirionnydd |
| 1951 | Abergwaun | 1983 | Aberafan | 2015 | Caerffili a'r Cylch |
| 1952 | Machynlleth | 1984 | Yr Wyddgrug | 2016 | Sir y Fflint |
| 1953 | Maesteg | 1985 | Caerdydd | 2017 | Penybont-ar-Ogwr, Taf ac Elái |
| 1954 | Y Bala | 1986 | Dyffryn Ogwen | 2018 | Brycheiniog a Maesyfed |
| 1955 | Abertridwr | 1987 | Merthyr Tudful | 2019 | Caerdydd a'r Fro |
| 1956 | Caernarfon | 1988 | Maldwyn | 2020 | Eisteddfod T |
| 1957 | Rhydaman | 1989 | Cwm Gwendraeth | 2021 | Eisteddfod T |
| 1958 | Yr Wyddgrug | 1990 | Dyffryn Nantlle ac Arfon | 2022 | Sir Ddinbych |
| 1959 | Llanbedr Pont Steffan | 1991 | Taf Elai | 2023 | Sir Gaerfyrddin |
| 1960 | Dolgellau | 1992 | Bro Glyndŵr | 2024 | Maldwyn |
| 1961 | Aberdâr | 1993 | Abertawe a Lliw | 2025 | Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro |
| 1962 | Rhuthun | 1994 | Meirionnydd | 2026 | Ynys Môn |
| 1963 | Brynaman | 1995 | Bro'r Preseli | 2027 | Casnewydd |
| 1964 | Porthmadog | 1996 | Bro Maelor | | |

Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Mae'r rheolau isod yn berthnasol i bob Eisteddfod gan gynnwys Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol.

Beth ydy Eisteddfod?

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, un o wyliau teithiol mwyaf Ewrop sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr ar draws chwe diwrnod yn cael ei chynnal bob blwyddyn yn ystod wythnos y Sulgwyn. Mae'n binacl tair blynedd o waith caled gan wirfoddolwyr o'r ardal leol ac mae'n cael ei ddarparu yn helaeth yn y cyfryngau gan gynnwys y teledu, radio, y we a'r wasg leol a chenedlaethol.

Gŵyl gystadleuol yw'r Eisteddfod gyda thros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cystadlu bob blwyddyn mewn cystadlaethau megis canu, dawnsio a pherfformio. Rhain yw'r buddugol o tua 40,000 o gystaddeuwyd ledled Cymru sydd wedi ennill eu lle yn y Genedlaethol yn dilyn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarthol sydd yn cael eu cynnal yn ystod misoedd y gwanwyn cyn yr Eisteddfod.

Canolbwynt yr Eisteddfod yw'r cystadlu yn y tri Pafiliwn, ond yn amgylchynu'r Pafiliwnau mae cannoedd o stondinau lliwgar sydd yn cynnig ystod eang o weithgareddau ar gyfer y teulu cyfan – o ddringo a sesiynau chwaraeon i ffair, bandiau byw a sioeau plant gyda chymeriadau teledu. Yn ogystal â hyn, gallwch ymweld â'r Arddangosfa Gelf sydd yn gartref i'r holl gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Eisteddfod – tua 500 o ddarnau o waith!

Yn 2025 cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam ac yn 2026 bydd yr Eisteddfod yn mynd ar daith i Ynys Môn.

Gobeithio y gwelwn ni chi yno!

Terminoleg Eisteddfod yr Urdd

Rhanbarth – Eisteddfod Sir

Trefnydd – Gall fod yn Swyddog Cymunedol / Athro / Gwirfoddolwr Torfol – Unrhyw gystadlaeth sydd yn cynnwys 5 neu fwy o bobl. Person â gofal – Rhiant / Gwarcheidwr / Athro / Hyfforddwr

Cydymffurfio â'r Rheolau

Wrth gofrestru ar-lein i gystadlu mae pob cystaddeuwyd, hyfforddwr, person â gofal a chefnogwr yn ymrwmo i gydymffurfio gyda holl reolau cystadlu, amodau cyffredinol a chòd ymddygiad yr Urdd. Tynnir sylw pob cystaddeuwyd, hyfforddwr a person â gofal at Hysbysiad Preifatrwydd yr Urdd sydd i'w weld ar <http://www.urdd.cymru/cy/amdanom-ni/polisiau-urdd/cyfrinachedd>

Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystaddeuwyd, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwmo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r Mudiad.

Enwau Swyddogol Canghennau'r Urdd

1 Adran Ysgol - Pob cangen sydd yn gweithredu o fewn Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd, Ysgol Gydol Oes neu Goleg.

2 Adran/Aelwyd - Cangen Gymunedol o'r Urdd sy'n agored i holl aelodau'r mudiad, sy'n cwrdd y tu allan i oriau a threfniant Adran Ysgol, gyda rhaglen o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

3 Canghennau Perfformio/Arbenigol - Mae croeso i'r canghennau hyn gystadlu yn yr Eisteddfod yn y categorïau oedran perthnasol, ac eithrio cystadlaethau sy'n gyfyngedig i Ysgolion, Adranau neu Aelwydydd. Am ragor o arweiniad, cysylltwch ag Adran yr Eisteddfod.

4 Cystadlu Tu Allan i Gymru - Gellir cystadlu tu allan i Gymru mewn Eisteddfod Rhanbarth arbennig. Rhaid dilyn y drefn gofrestru arferol.

Er mwyn cael yr hawl i gystadlu, mae'n rhaid i bob cangen gofrestru fel cangen o'r Urdd cyn dyddiad cau cystadlu eu rhanbarth. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch aelodaeth@urdd.org.

Polisi Iaith

1 Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod.

2 Cerddoriaeth Gefndir - Lle nodir bod modd defnyddio cerddoriaeth gefndir, caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg, yn ddiwynnol ar hawlfraint. Ewch i dudalen 10 am ragor o wybodaeth

Pwy sydd yn cael cystadlu?

1 Aelodau - Rhaid bod yn aelod o Urdd Gobaith Cymru er mwyn cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Gellir ymaelodi trwy ein gwefan: urdd.cymru/aelodaeth.

2 Hygyrchedd - Mae Eisteddfod yr Urdd yn ymrwymedig i ddarparu profiad a chyfleoedd cyfartal, ac i wneud pob ymdrech o fewn rheswm i wneud profiad o gystadlu yr un mor bleserus â phosibl i bawb.

3 Cyfyngiadau Cystadlu - Mae hawl gan bob aelod o'r Urdd gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch, os mai dyma ddymuniaid yr aelod.

4 Y Buddugol - Bydd y buddugol yn cynrychioli'r Rhanbarth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Pan nad yw hyn yn bosib, gall Adran yr Eisteddfod wahodd yr ail yn yr Eisteddfod Rhanbarth i gymryd eu lle.

Gall Adran yr Eisteddfod wahodd yr ail yn ogystal â'r cyntaf i gynrychioli'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hysbysir y cystaddeuwyd perthnasol yn fuan wedi cynnal yr Eisteddfod Rhanbarth olaf. Yn y Rhanbarth lle cynhelir yr Eisteddfod, bydd y cyntaf ac ail o bob cystadlaeth yn cael eu gwahodd i gynrychioli'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol

5 Oedran Cystadlu - Rhaid i gystaddeuwyd fod o fewn yr oedran cystadlu ar 31 Awst wedi'r Eisteddfod flaenorol. Er enghraifft, mewn cystadlaethau 14-25 oed, rhaid i ymgeiswyr fod wedi troi yn 14 oed, ond heb droi yn 25 oed. Gofynnir am ddyddiad geni pob cystaddeuwyd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Os oes amheuaeth ynglŷn ag oedran unrhyw gystaddeuwyd, bydd gan Drefnwyr yr Eisteddfod hawl i ofyn am weld tystysgrif geni'r aelod.

6 Cystadlu

i) Caniateir i unrhyw aelodau o'r Urdd gystadlu yn y Rhanbarth lle mae eu cartref, lle maent yn derbyn eu haddysg, neu mewn cangen lle maent yn derbyn hyfforddiant.

ii) Rhaid i bob aelod gystadlu mewn cystadlaethau unigol Llwyfan a Maes yn yr un gangen. Ni fydd modd cystadlu mewn mwy nag un Cylch / Rhanbarth ar gystadlaethau unigol.

iii) Rhaid i bob deuaud, triawd neu bedwarawd 19 – 25 oed gystadlu lle mae'r mwyafrif o aelodau yn byw neu yn derbyn eu haddysg. Lle nad oes mwyafrif, rhaid cysylltu gyda'r Adran Eisteddfod cyn cofrestru. Os o dan 19 oed, rhaid cysylltu gyda changen lle mae eu cartref, lle maent yn derbyn eu haddysg, neu mewn cangen lle maent yn derbyn hyfforddiant.

iv) Fe all aelod berthyn i fwy nag un gangen - Adran Ysgol ac Aelwyd er enghraifft. Caniateir i'r aelod gystadlu dros y naill gangen neu'r llall ar gystadlaethau gwahanol. Fodd bynnag mewn cystadlaethau Llwyfan a Maes rhaid dewis cystadlu fel unigolyn yn y naill gangen neu'r llall, ond mewn cystadlaethau torfol gall gysylltu â'r gangen a'i hyfforddwyd.

v) Ni chaniateir i unrhyw un ymgeisio dros fwy nag un gangen, na pherthyn i fwy nag un grŵp yn yr un gystadlaeth.

7 Aelod Unigol - Caniateir i unrhyw aelod o'r Urdd gystadlu fel Aelod Unigol pan nad ydynt yn gysylltiedig â changen yn y Rhanbarth lle mae eu cartref, neu lle maent derbyn eu haddysg.

8 Nifer Cangen Ysgol - Yn y cystadlaethau lle mae cyfyngder nifer y disgyblion mewn cangen ysgol, dylid eu cyfrif o ddsobarth derbyn hyd at Flwyddyn 6 ar 31 Ionawr. Mewn ysgolion Gydol Oes, dylid cyfrif y disgyblion perthnasol hyd at Flwyddyn 6.

Dysgwyr

1 Ni ddylai aelodau lle mae un rhiant yn y cartref yn gallu'r Gymraeg gystadlu fel dysgwyr mewn cystadlaethau unigol

2 Caniateir aelodau sy'n symud o addysg cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg gystadlu fel dysgwr mewn cystadlaethau torfol yn unig.

Dysgwyr Cynradd - Dysgwyr yw aelodau nad ydynt wedi / yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen nac yng Nghyfnod Allweddol 2. Os ydynt yn hwyrddyfodiad di-Gymraeg mewn ysgol lle mae mwyafrif y disgyblion yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, caniateir iddynt gystadlu fel dysgwyr am eu tair blynedd gyntaf yn yr ysgol.

Dysgwyr Uwchradd - Dysgwyr yw'r aelodau hynny nad ydynt wedi / yn dilyn Rhaglen astudio Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen nac yng Nghyfnod Allweddol 2 na 3. Caniateir hwyrddyfodiad di-Gymraeg i gystadlu fel dysgwyr. Mae unigolyn sy'n cychwyn mewn ysgol Gymraeg swyddogol ym mlwyddyn 7 ar ôl dod o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn gymwys i gystadlu fel dysgwr am eu 3 blynedd gyntaf yn yr ysgol.

3 Dilysrwydd - Wrth gofrestru cystadleuwyr, mae'r arweinydd yn gwarantu dilysrwydd pob cystadleuydd yng nghystadlaethau Adran y Dysgwyr.

4 Mae Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn ogystal â'r rheolau cystadlu a nodir ym mhob adran arall yn berthnasol hefyd i gystadlaethau'r Dysgwyr

Sut mae mynd ati i gystadlu?

1 Cofrestru i Gystadlu - Mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno cystadlu gofrestru ar ein gwefan cyn y dyddiadau cau Cenedlaethol. Gweler 'Dyddiadau i'w Cofio', tudalen [13](#).

2 Cyfnod Gwario - Wedi'r dyddiad cau bydd cyfnod o dri diwrnod gwaith i aelodau wirio'r wybodaeth. Mae modd i rieni wirio cystadlaethau eu plant ar-lein, gan dynnu sylw'r gangen / ysgol / Urdd o unrhyw broblem.

3 Cofrestru Hwyr - Ar ôl i'r cyfnod gwario ddod i ben bydd y system yn cau ac ni fydd modd ychwanegu cystadleuwyr nac addasu gwybodaeth oni thelir ffi weinyddol. Gellir cofrestru'n hwyr drwy dalu'r ffi weinyddol hyd at 7 diwrnod cyn eu perfformiad cyntaf.

4 Rhestr Testunau - Rhaid i gystadleuwyr ddysgu'r gwaith a nodir yn y Rhestr Testunau, wrth ochr y gystadlaethau, a bod yn barod i berfformio'r gwaith cyfan ar lwyfan Cylch / Rhanbarth a Chenedlaethol. Ni chaniateir i neb ddefnyddio copiâu o eiriau a / neu gerddoriaeth mewn unrhyw fodd, ac eithrio yn yr adran offerynnol. Rhaid perfformio'r argraffiad a chyweirnod y darn prawf swyddogol fel y nodir yn y Rhestr Testunau. Nodir yn y Rhestr Testunau os oes dewis o gyweirnodau ar gyfer y darn swyddogol.

5 Eisteddfod Rhanbarth - Rhaid i bob cystadleuydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Rhanbarth, oni nodir yn wahanol (ar dudalen 75). Ni chaniateir i unigolyn, parti na chôr gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, oni bai iddynt gael eu hanfon yno yn swyddogol o un o Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd.

6 Cysondeb - Rhaid i bawb sy'n cystadlu berfformio'r gwaith, ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a rhaid cadw at yr un cystadleuwyr trwy gydol y daith i'r Genedlaethol. Nid oes hawl newid cystadleuwyr rhwng y Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol. Anogir pawb mewn cystadlaethau torfol i restru eilyddion er mwyn osgoi unrhyw anawsterau a all godi.

Rheolau Eisteddfod

1 Os bydd cystadleuydd yn torri un o Reolau Cyffredinol neu Reolau Adrannol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn ni fydd modd iddynt dderbyn gwobr.

2 Cydraddu - Ni dderbynnir cydradd fuddugol yn unrhyw safle, yn unrhyw gystadlaethau yn yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth na'r Genedlaethol, heblaw pan mae ond 4 yn y gystadlaethau, ble caniateir cydraddu'r 3ydd safle yn unig. Os anfonir enwau cystadleuwyr cydradd buddugol at Adran yr Eisteddfod, ni dderbynnir yr un ohonynt. Yn yr un modd, nid oes modd rhannu gwobrau yn y cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu.

3 Rheol Amser Penodol - Ni chaniateir i unrhyw berfformiad fod dros yr amser a nodir. Os ydy'r cystadleuydd dros amser mewn Eisteddfod Gylch / Rhanbarth yna nodir hyn ar ei feirniadaeth a cheir gwybod ar lafar gan drefnydd yr Eisteddfod honno. Bydd yn rhaid addasu'r perfformiad erbyn yr Eisteddfod nesaf. Erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol ni chaniateir i unrhyw berfformiad fod dros yr amser a nodir ac ni fydd modd derbyn gwobr os yw hyn yn digwydd.

Cofiwch, gall tempo perfformiad newid mewn perfformiad byw ar lwyfan mawr. Wrth baratoi rhaglen neu drac, gwnewch yn siwr fod (o leiaf) 10-30 eiliad sbâr ar y diwedd - rhag ofn!

Noder: Amseriad swyddogol Eisteddfod yr Urdd a ddefnyddir er mwyn penderfynu a yw cystadleuydd wedi mynd dros yr amser a ganiateir.

4 Ymateb Cyn Cystadlu - Dylai pob cystadleuydd fod yn barod i berfformio pan elwir arnynt. Os na fyddant yn cofrestru o fewn hanner awr i'w amser perfformio pan y'i gelwir, mae gan Adran yr Eisteddfod hawl i'w tynnu o'r gystadlaethau.

5 Cyfeilyddion Swyddogol - Rhaid i'r Unawdwyr ac Ensemblau'r Sioe Gerdd (Cyst.162-164) a'r Unawdwyr Offerynnol ddarparu eu cyfeilyddion eu hunain.

Gweithdrefnau a phrosesau

1 Dyfarniad y Beirniad - Bydd dyfarniad y beirniad yn derfynol yn mhob achos oddi fewn i reolau a chanllawiau'r Wyl. Dylid cyflwyno unrhyw apêl i sylw Trefnydd yr Eisteddfod neu i Swyddogion yr Urdd yn achos Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn ysgrifenedig o fewn awr ar ôl dyfarniad unrhyw gystadlaethau, ond gellir trafod y mater ar lafar

yn ogystal. O dan amodau eithriadol, sefydlir Panel Apêl. Rhaid cael rhesymau cadarn er mwyn cynnull Panel Apêl ac nid yw anghytuno â barn y beirniad yn sail ddigonol. Prif feirniad pob cystadleuaeth yw'r un a enwir yn gyntaf yn y Rhaglen. Bydd penderfyniad Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau a Chadeirydd yr Urdd yn derfynol ar faterion cystadleuol holl eisteddfodau Urdd Gobaith Cymru.

2 Beirniadaeth - Bydd beirniadaeth fer ar gael i bob cystadleuydd ar ôl i'r gystadleuaeth ymddangos ar y llwyfan. Ni ellir addo beirniadaeth ysgrifenedig i gystadleuwyr ar waith cyfansoddi. Cyhoeddir rhestr o'r buddugwyr ar ein gwefan ac ap, cyfrol o gyfansoddiadau llenyddol buddugol ac arddangosfa o fuddugwyr yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg. Darperir y feirniadaeth yn y Gymraeg yn unig ond gellir gwneud cais am feirniadaeth Saesneg wedi'r Eisteddfod.

3 Llwyfannu Cystadleuwyr - Bydd y buddugol ym mhob Rhanbarth yn cystadlu ar un o lwyfannau'r Eisteddfod Genedlaethol, boed yn bafiliwn, llwyfan allanol neu leoliad cystadlu arbennig.

4 Beirniad a Chyfeilyddion - Nid yw'r Beirniad i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn yr adran y maent yn beirniadu ynddi rhwng 1 Medi a'r Eisteddfod.

Nid yw'r Cyfeilydd i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn y gystadleuaeth y mae'n cyfeilio ynddi rhwng 1 Medi a'r Eisteddfod. Ni ddylai Beirniad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd feirniadu mewn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn yr un adran y byddant yn beirniadu ynddi yn y Genedlaethol.

Cedwir yr hawl gan y Cyfarwyddwr i wahodd Beirniad neu gyfeilydd ar y funud olaf er mwyn gallu cyflawni'r dasg yn yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol. Y mae'n ddealladwy na fydd y Cyfeilyddion Swyddogol ar gael i gyfeilio mewn cystadlaethau eraill yn ystod yr Eisteddfod.

5 Gohirio Eisteddfod - Bydd gan yr Urdd hawl i gwtogi, gohirio neu beidio cynnal unrhyw Eisteddfod Gylch, Rhanbarth neu Genedlaethol oherwydd amgylchiadau arbennig. Gwna'r Urdd bob ymdrech i sicrhau y bydd holl drefniadau'r wyl yn effeithiol ond ni ellir dal yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled a all ddigwydd yn sgil gohirio unrhyw Eisteddfod.

6 Llwyfannu Cystadleuaeth - Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i beidio â llwyfannu pob cystadleuaeth ar brif lwyfannau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

7 Perfformiadau Cyhoeddus - Wrth gyflwyno ffurflen gofrestru mae'r person â gofal yn cydnabod fod holl Eisteddfodau'r Urdd yn ddigwyddiadau cyhoeddus a bydd aelodau yn ymddangos ar lwyfan cyhoeddus o flaen y cyhoedd sydd yn mynychu'r digwyddiadau. Cyhoeddir enwau cystadleuwyr ac enwau canghennau / ysgolion oddi ar lwyfan yr Eisteddfodau. Cyhoeddir enwau cystadleuwyr ac enwau canghennau / ysgolion mewn dogfennau gweinyddol mewnol yr Urdd. Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, rhennir enwau'r cystadleuwyr ac enwau'r canghennau gyda'r wasg gan gynnwys cwmnïau teledu a radio. Mae posibilrwydd y bydd enwau a lluniau cystadleuwyr Eisteddfodau'r Urdd yn ymddangos yn gyhoeddus ar wefan yr Urdd (e.e. canlyniadau'r Eisteddfodau) ac ar blatfformau cyhoeddus eraill gan gynnwys ond heb gyfyngiad, papurau newydd, papurau bro, gwefannau ac ar gyfryngau cymdeithasol yr Urdd ac eraill. Darlledir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn fyw ar y teledu ac ar y radio a darlledir yn helaeth o'r Maes (gweler rheol 9). Cyfrifoldeb y person â gofal yw hysbysu'r Urdd o unrhyw achos dros beidio â datgelu gwybodaeth unrhyw aelod ar y teledu, y radio a'r we. Mae'r Urdd yn barod i gydymffurfio, cydweithio a hwylyso'r broses er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r mudiad yn medru cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd yn unol â dymuniadau aelod.

8 Hawlfraint - Mae'n anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi'i gyhoeddi. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio ewch i dudalen 10. Wrth ddewis darn 'hunan-ddewisiad', y cystadleuydd sydd yn gyfrifol am sicrhau'r hawl gan y cyhoeddwr i berfformio darn o waith yn gyhoeddus, ac am sicrhau bod unrhyw gyfieithiad yn gyfieithiad swyddogol sydd wedi ei gofrestru a'i gymeradwyo

gan y cyhoeddwr. Gofynnir am brawf bod yr hawliau hyn wedi eu rhoi. Cyfrifoldeb y darlledwr yw sicrhau'r hawl i ddarlledu darn o waith. Gall yr Urdd ddarparu enghraifft o lythyr i'w anfon at y cyhoeddwr gyda geiriad addas, yn ogystal â manylion cyswllt yr amrywiol gyhoeddwr. Gall methu sicrhau'r hawl i berfformio olygu nad oes hawl gan gystadleuydd / gystadleuwyr i berfformio yn gyhoeddus mewn Eisteddfod. Lle defnyddir darn hawlfraint o fewn perfformiad a gyfansoddiwyd yn wreiddiol (e.e. Cyflwyniad Digri / Cân Actol ayyb), cyfrifoldeb y cystadleuydd ydyw i sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer defnyddio'r darn. Rhaid i'r fath ganiatâd alluogi i'r Urdd, S4C ac / neu unrhyw drydydd parti, gyda chaniatâd y cyhoeddwr a/neu PRS, i wneud y perfformiad ar gael yn ddigwyngiad ac yn fyd-eang, drwy bob cyfrwng neu ddull dosbarthu (sy'n bodoli nawr neu a ddatblygir yn y dyfodol). Ceir gymorth ar glirio hawlfraint drwy ffonio Adran Gymraeg PRS ar 020 3741 4033 neu e-bostio: welshvprogrammes@prsformusic.com. Nid oes angen caniatâd i ddefnyddio'r darnau sy'n ymddangos yn y Rhestr Testunau. Anogir pawb i ddewis caneuon na fydd yn creu trafferthion wrth eu darlledu. Dylid osgoi ambell gyfansoddwr/grŵp gan nad oes modd sicrhau hawlfraint darlledu'r gân. Am fwy o wybodaeth i 'Am ragor o wybodaeth ewch i dudalen 10.

9 Darlledu - Wrth gofrestru i gystadlu neu wrth fynychu Eisteddfod yr Urdd, mae'r aelod neu'r person â gofal yn cydnabod bod posibilrwydd y bydd eu llun neu eu perfformiad yn cael ei recordio a'i ddarlledu. Bydd gan yr Urdd hawl i'w defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol gan gynnwys darlledu ar S4C, ar-lein, ar ein Cyfryngau Cymdeithasol ac ar BBC Radio Cymru, a hynny heb geisio caniatâd pellach yn unigolyn na thalu unrhyw freindal neu daliad arall.

10 Cyhoeddi - Bydd gan yr Urdd hawl i gyhoeddi pob un neu rai o'r gwaith Cyfansoddi a Chreu a ddyfernir yn fuddugol ac i'w defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol, a hynny heb geisio caniatâd pellach yr awduron na thalu unrhyw freindal neu daliad arall.

11 Newidiadau i'r Rhestr Testunau - Bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r Rhestr Testunau yn ymddangos ar wefan Eisteddfod yr Urdd: urdd.cymru/eisteddfod o dan y pennawd Rhestr Testunau / Newidiadau. Os oes unrhyw wahaniaeth yng nghyfieithiad y fersiwn Saesneg, y fersiwn Gymraeg fydd yn cael ei ddilyn.

12 Gwobrwyo - Rhoddir tystysgrif a medal yr Eisteddfod i'r cyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mewn cystadlaethau torfol, rhoddir un fedal yn unig ond mae modd prynu mwy o fedalau trwy'r Adran Eisteddfod.

13 Maint Llwyfan - Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, maint y llwyfan **Gwyrdd** yw tua 10m x 8m, y llwyfan **Gwyn** tua 10m x 8m a'r llwyfan **Coch** tua 6m x 4m. Gall maint llwyfannau yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth fod yn wahanol a dylid addasu unrhyw berfformiad i'r gofod sydd ar gael.

14 Offerynnau - Ni chaniateir defnyddio eich drymiau eich hunain ar lwyfannau'r Eisteddfod Genedlaethol ac felly bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ym mhob lleoliad, a 3 tympan ar gyfer y cystadlaethau cerddorfaol yn unig. Ni fydd y ddarpariaeth hon ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch / Rhanbarth lle bydd disgwyl i chi ddod â'ch offer eich hun. Os oes angen tympanau arnoch, rhaid gwneud cais i'r swyddfa erbyn Mawrth 3ydd.

15 Gweinyddu Eisteddfod - Cyfrifoldeb Pwyllgor Rhanbarth yw gweinyddu ei Eisteddfod Rhanbarth. Yn yr un modd, dirprwyir y cyfrifoldeb o weinyddu'r Eisteddfodau Cylch i'r Pwyllgorau Cylch. Mae rheolau cystadlu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn berthnasol i holl Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth yr Urdd. Mewn anghydfod, rhaid i'r swyddogion Cylch a Rhanbarth ymgynghori ag Adran yr Eisteddfod, cyn gwneud penderfyniad.

Hunan-ddewisiad a Hawlfraint

Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad o fewn y perfformiad.


Dilyna y camau yma er mwyn sicrhau fod gen ti ganiatâd i ddefnyddio'r gwaith.

Gwybodaeth Bellach

Am ragor o fanylion a chymorth, cer i'r [wefan](mailto:wefan@urdd.org) neu e-bostia hawlfraint@urdd.org.

Ceir cymorth pellach ar glirio hawlfraint drwy gysylltu â Adran Gymraeg PRS for Music ar 020 3741 4033 neu e-bostio welshvprogrammes@prsformusic.com

Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi yn anghyfreithlon!



Sut i Gystadlu

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

- 1 Pora drwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffet gystadlu ynddi/ynddynt.
- 2 Sicrha fod pawb sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2024/2025 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan.
- 3 Bydd angen cofrestru i gystadlu ym mhob cystadleuaeth cyn y dyddiad cau, Chwefror y 17eg 2025, heblaw am yr eithriadau [yng nghefn y Rhestr Testunau](#) lle bydd angen cofrestru erbyn Mawrth 3ydd 2025.
- 4 Bydd pawb sydd yn cofrestru yn cael eu gwahodd i gystadlu yn eu heisteddfod Cylch neu Rhanbarth.
- 5 Bydd rhai cystadlaethau Llwyfan a Maes yn hepgor yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, ac yn ymddangos yn syth yn y Genedlaethol. Ceir rhestr o'r cystadlaethau hyn [yng nghefn y Rhestr Testunau](#).
- 6 Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

- 1 Pora drwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffet gystadlu ynddi/ynddynt.
- 2 Sicrha fod pawb sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2024/2025 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan
- 3 Dylai'r holl waith cyfansoddi gael ei lanlwytho wrth gofrestru, erbyn 3ydd Mawrth 2025. Dylai gwaith Celf, Dylunio a Thechnoleg fod wedi ei gofrestru erbyn 30fed Ebrill, 2025.
- 4 Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.



Dyddiadau i'w Cofio

21 Hydref 2024

Dyddiad cau: Cofrestru CogUrdd a PobUrdd

27ain Ionawr 2025

Dyddiad cau: Dawns ac Offerynnol

31 Ionawr 2025

Y dyddiad olaf i gyfrif y disgyblion mewn ysgol

17eg Chwefror 2025

Dyddiad cau holl gystadlaethau Llwyfan a Maes, heblaw'r eithriadau **yng nghefn y Rhestr Testunau**.
Rhaid cofrestru pob cystadleuydd erbyn y dyddiad cau.
(Cyfnod gwiro: 18-20 Chwefror 2025)

3ydd Mawrth 2025

Dyddiad cau:

- Holl gynnyrch Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu, heblaw'r eithriadau **yng nghefn y Rhestr Testunau**.
- Cystadlaethau Eisteddfod T
- Cystadlaethau Band/Artist Unigol
- ar gyfer trefnu cyfeilydd i'r Unawd 19-25.
- ar gyfer trefnu tympanau.

Mawrth 2025

Eisteddfod 'tu allan i Gymru'.

30ain Ebrill 2025

Dyddiad Cau: Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg.

Mai 2025

Beirniadu Celf, Dylunio a Thechnoleg Cenedlaethol

26-31 o Fai 2025

Eisteddfod Genedlaethol Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025

16eg Mehefin 2025

Y dyddiad olaf y bydd Adran yr Eisteddfod yn derbyn cais am ddychwelyd cynnyrch yr adrannau Cyfansoddi a Chreu

31 Awst 2025

Rhaid i ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol i gystadlu ar y dyddiad hwn.

Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru

Swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

Tîm Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

| | |
|---|--|
| Cyfarwyddwr | Llio Maddocks |
| Trefnydd Technegol Eisteddfod yr Urdd | Lowri Morris |
| Trefnydd Celfyddydol Eisteddfod yr Urdd | Bethan Walkling |
| Trefnyddion Cynorthwyol | Gethin Page Owain ap Myrddin Sian Williams |
| Rheolwr Nawdd a Phartneriaethau | Nannon Evans |
| Swyddog Gweinyddol | Lois Wynne Jones |
| Swyddog Marchnata Digidol | Lois Eckley |
| Trefnydd Cwmni Theatr Ieuenctid | Branwen Davies |
| Swyddog Cymunedol | Nia Eleri Johns |
| Rheolwr Maes | Sarah Cole |

Tîm Adran Gyfathrebu a Datblygu

| | |
|------------------------------------|------------------|
| Cyfarwyddwr | Mali Thomas |
| Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu | Branwen Dafydd |
| Swyddog Marchnata a Chyfathrebu | Ceri Williams |
| Swyddog Marchnata Digidol | Mared Elin Jones |

Cadeiryddion Paneli Canolog Eisteddfod yr Urdd

| | |
|----------------------------|-----------------|
| Celf, Dylunio a Thechnoleg | Tomos Sparron |
| Cerdd Dant | Eirian M. Jones |
| Cerddoriaeth | Patric Stephens |
| Dawns | Eleri Jones |
| Llefaru | Elin Williams |
| Llenyddiaeth | Hywel Griffiths |
| Theatr | Peter Davies |
| Dysgwyr | Lona Evans |

Bwrdd y Celfyddydau

Arwel Gruffydd, Alun Saunders, Aled Rhys, Bedwyr Fychan, Carwyn Hawkins, Carys Edwards, Dai Baker, Elen Rhys, Elan Roach, Gwenno Mair Davies, Helen Williams, Patric Stephens, Peter Davies, Rhian Haf

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr 2025

Swyddogion Eisteddfod Dur a Môr 2025

| | |
|------------------------|---|
| Llywyddion Anrhydeddus | Janet Jones Menna Joynson Davida Lewis Wayne Pedrick |
|------------------------|---|

Swyddogion Pwyllgor Gwaith 2025

| | |
|------------------|--|
| Cadeirydd | Laurel Davies |
| Is-gadeiryddion | Heledd Clarke Janet Jones Aled Maddock Karen Thomas |
| Ysgrifennydd | Gwen Shenton |
| Cadeirydd Cyllid | Delyth Spurway |

Swyddogion Cwmni Urdd Gobaith Cymru

| | |
|-------------------------------|---|
| Prif Weithredwr | Sian Lewis |
| Cadeirydd | Nia Bennett |
| Cadeirydd Bwrdd y Celfyddydau | Gwenno Mair Davies |
| Trysorydd | Sara Williams |
| Llywyddion Anrhydeddus | Wynne Melville Jones Siôn Edwards Rhianon Lewis |
| Ymddiriedolwyr | Nia Bennett Gemma Cutter Carol Davies Dyfrig Davies Gwenno Davies Mari Emlyn Delyth Evans Nia Haf Tudur Dylan Jones Jim O'Rourke Deio Owen Meriel Parry Emily Pemberton Aled Walters Abigail Williams |

ABRSM

4 London Wall Place,
London, EC2Y 5AU
020 7636 5400
abrsn.org
abrsn@abrsn.ac.uk

Atebol

Adeiladau'r Fagwyr
Llandre, Aberystwyth
01970 832172
atebol.com

Barddas

Bethany Celyn
barddas.cymru
bethany@barddas.cymru

Cyhoeddiadau Curiad

Uned 6 a 9 Capel Salem, Ffordd Bryncelyn,
Talysarn, Caernarfon LL54 6AB
01286 882166
curiad.co.uk
curiad@curiad.co.uk

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon,
Gwynedd, LL54 5TG
01286 831111
gwynn.co.uk
gwynn@gwynn.co.uk

Cyhoeddiadau Sain

Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon,
Gwynedd LL54 5TG
01286 831111
sainwales.com
sain@sainwales.com

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Copiau ar gael drwy eich siop lyfrau lleol.
Os oes anhawster, cysylltwch â Rhidian
Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr,
Aberystwyth SY23 2HX
rhcgriffiths@btinternet.com

Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

John Eifion Jones a Marina Bryn Jones
Tyddyn Arthur, Y Waun, Penisarwaun,
Caernarfon, LL55 3PN
01286 872488 / cerdd-dant.org
cerdd.dant.cymru@gmail.com

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

Palas Print, 10 Palace Street, Caernarfon,
Gwynedd LL55 1RR
01286 674631

Faber

01279 828988
fabermusicstore.com
support@fabermusic.com

Gwasg y Bwthyn

Tŷ Cadnant, Parth 2, Lôn Hen Felin,
Cibyn, Caernarfon LL55 2BD
01286 672018
gwasgybwthyn@btconnect.com

Gwasg Carreg Gwalch

12 Iard yr Orsaf, Llanrwst,
Conwy LL26 0EH
01492 642031
carreg-gwalch.cymru
llanrwst@carreg-gwalch.cymru

Gwasg Gee

Isfryn, Llanllechid, Bethesda,
Gwynedd, LL57 3LB
07765 400140
gwasggee@gmail.com

Gwasg Gwynedd

Hafryn Llwyn Hudol, Pwllheli,
Gwynedd, LL53 5YE
01758 612483
cyhoeddi@gwasggwynedd.com

Hal Leonard

020 7395 0382
halleonard.com
sales@halleonardeurope.co.uk

Novello

Chester Music and Novello & Co,
14-15 Berners Street, London, W1T 3LJ
020 7612 7400
musicsalesclassical.com
promotion@musicsales.co.uk

Oxford University Press

Great Clarendon Street, Oxford, OX2 6DP
01536 452657
www.oup.com
onlinequeries.uk@oup.com

Shawnee Press

+1 800-962-8584
www.shawneepress.com
info@shawneepress.com

Snell a'i Feibion

68 West Cross Lane, West Cross,
Abertawe, SA3 5LU
01792 405727
snelldavies@btinternet.com

Ty Cerdd

enquiries@tycerdd.org
www.tycerddshop.com/collections/sheet-music/collection_eisteddfod-yr-urdd-2025

Urdd Gobaith Cymru

Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd,
Glan-Ilyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST
01678 541014
urdd.cymru
eisteddfod@urdd.org

Y Lolfa

Talybont, Ceredigion SY24 5AP
01970 832304
yloffa.com
yloffa@yloffa.com

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

| | |
|----------------------------------|----|
| Cerddoriaeth Lleisiol..... | 17 |
| Canu Gwerin | 22 |
| Cerddoriaeth Offerynnol..... | 24 |
| Band/Artist unigol | 28 |
| Cerdd Dant..... | 28 |
| CogUrdd..... | 32 |
| Dawnsio Gwerin..... | 32 |
| Dawns..... | 35 |
| Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo..... | 36 |
| Llefaru..... | 37 |
| Siarad Cyhoeddus..... | 39 |
| Theatr | 39 |
| Trin Gwallt a Harddwch | 43 |

Clic!

Gallwch glicio ar unrhyw un o'r adrannau yn y rhestr cynnwys i fynd yn syth at yr adran berthnasol.

Cerddoriaeth: Lleisiol

Dyddiad cau
cofrestru:
17eg o Chwefror

- | | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Unawd Bl.2 ac iau | 'Y Lili Wen Fach', Daniel Protheroe <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> - clicia yma | Cenir yn C fwyaf gyda chyfeiliant arbennig ar gyfer Eisteddfod Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025. |
| 2 | Unawd Bl.3 a 4 | 'Hufen Ia', Beti Rhys <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> - clicia yma | |
| 3 | Unawd Bl.5 a 6 | 'Y Gwanwyn', Rhys Jones <i>Tŷ Cerdd</i> Cywair: G fwyaf (D↗E') Cywair: F fwyaf (C↗D') | |
| 4 | Deuawd Bl.6 ac iau | 'Lluniau'r Tymhorau', Leah Owen <i>Codi'r To, Cyhoeddiadau Curiad (1077)</i> | Caiff y Soprano ddewis naill ai'r F neu'r C yn y bar olaf. |
| 5 | Parti Bl.6 ac iau (Ad) Dim mwy na 12 mewn nifer | 'Llangrannog', Ann Bowen Thomas <i>Byddwch Lawen, Cyhoeddiadau Sain</i> | |
| 6 | Parti Unsain Bl.6 ac iau (D) Dim mwy na 12 mewn nifer | 'Pêl Droed', Mal Pope <i>Cymru ar Gân, Cyhoeddiadau Curiad (1031)</i> Ni chenir rhan yr Alto yn y gytgan. Ym marrau 40/41, rhaid llefaru enw (Cymraeg) tîm pêl-droed sy'n lleol i'ch ysgol chi. | |
| 7 | Côr Bl.6 ac iau (Ad) 11-25 mewn nifer | 'Clod i'r Arglwydd', Eric Jones <i>Canwn Fawl, Cyhoeddiadau Curiad (1015)</i> | |
| 8 | Parti Unsain Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â hyd at 50 o blant Dim mwy na 12 mewn nifer | 'Molwn Ef am Gymru', A.C. Rouse <i>Mwy o Glap a Chân, Y Lolfa</i> Cenir Pennill 1 a 3 yn unig | |
| 9 | Parti Unsain Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â dros 50 o blant rhwng 4-11 oed Dim mwy na 12 mewn nifer | 'Mynd i'r Ffair', Bethan Bryn <i>Mynd i'r Ffair, Curiad (1052)</i> | |

-
- 10 Côr BI.6 ac iau (YC)**
Ysgolion â hyd at 150 o blant rhwng 4-11 oed
11-25 mewn nifer
- 'Diolch am Gerddoriaeth', Mark a Helen Johnson**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
[Mae'r copi newydd hwn yn wahanol i'r un yn y gyfrol 'Caneuon i Bob Ysgol']
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
-
- 11 Côr BI.6 ac iau (YC)**
Ysgolion â dros 150 o blant rhwng 4-11 oed
20-40 mewn nifer
- 'Gwely Lliwiau'r Hydref', Mari Lloyd Pritchard**
Geiriau: Sian Owen
Cwmni Cyhoeddi Gwynn
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
-
- 12 Côr BI.6 ac iau (D)**
20-40 mewn nifer
- 'Bwyd', Caryl Parry Jones**
Cymru ar Gân, Curiad (1031)
- Ni ddylid canu'r rhannau dewisol yn y gytgan.
-
- 13 Parti Deulais BI.6 ac iau (YC/Ad)**
12-16 mewn nifer
- 'Nos a Dydd' (All Night, All Day)**
Alfred Publishing (5789)
Geiriau Cymraeg: Tudur Dylan Jones
Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Dylai'r Soprano gadw at y brif alaw ym marrau 41, 45 a 46.
Caniateir y curo dwylo o far 36 i 43.
-
- 14 Ensemble Lleisiol BI.6 ac iau (YC/Ad)**
3-8 mewn nifer
Digyfeiliant
- Hunan-ddewisiad**
- Un darn digyfeiliant, trillais neu fwy i'w ganu yn y Gymraeg.
- Dim hwy na 3 munud.
Caniateir dyblu lleisiau.
Ni chaniateir arweinydd.
-
- 15 Unawd Merched BI.7, 8 a 9**
- 'Gwisgoedd Nef', ('He Wishes for the Cloths of Heaven'), Karl Jenkins**
Boosey & Hawkes (11220)
Geiriau Cymraeg: Meredydd Evans
Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Cywair: A fwyaf (C# / E) B&H 11220
Cywair: F fwyaf (A / C)
Copi yn F fwyaf ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
-
- 16 Unawd Bechgyn BI.7, 8 a 9**
- 'Nant y Mynydd', D. Vaughan Thomas**
Snell a'i Feibion
- Cywair: F fwyaf (E / E)
Cywair: E^b fwyaf (D / D)
Cywair: D fwyaf (C / C)
Copi D fwyaf ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri.
-

17 **Deuawd BI.7, 8 a 9****'Ffarwel i'r Gwynt a'r Eira', W. Rhys-Herbert***Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)*18 **Unawd S/A BI.10 a dan 19 oed****Naill ai:****'Drosom Ni', D. Afan Thomas***Tŷ Cerdd*

Cywair: E fwyaf (E ↗ E') (H&S 101)

Cywair: C fwyaf (C ↗ C')

neu:19 **Unawd T/B BI.10 a dan 19 oed****'Beth wna'r heniaith', Rhys Jones***Geiriau: Aled Lloyd Davies**Digon i mi, Cwmni Cyhoeddi Gwynn**Caniateir canu'r nodau dewisol bar 51.*

Cywair: A leiaf (C ↗ D')

Cywair: G leiaf (B^b ↗ C')Cywair F leiaf (A^b, ↗ B^b)*Copi unigol yn F a G leiaf ar gael o Gwmni Cyhoeddi Gwynn***Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol.**

(yr un yw'r darnau prawf ar gyfer cystadlaethau 18 ac 19)

Cyflwynir Ysgoloriaeth Mrs Olwen Phillips a rhodd Capel Cymraeg

Melbourne, Awstralia i'r unawdydd mwyaf addawol rhwng BI.10 ac 19 oed

(cystadlaethau 18-19)

20 **Deuawd BI.10 a dan 19 oed****'Bara Angylion Duw', ('Panis Angelicus'), César Franck***Edwin Ashtown Ltd (36392)**Geiriau Cymraeg: Euros Bowen**Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)*

21 Unawd 19–25 oed

Lleisiau Uwch - naill ai:

'Ond ni chafodd fod yn enaid coll' ('*But Thou did'st not leave*'), Handel
Meseia, Novello (8338)

Geiriau Cymraeg: T.H.Parry-Williams

Cywair A fwyaf (E[♯] G[♯])

neu:

'Clodforwch Dduw Ein Iôr' ('*Laudate Dominum*'), Mozart

The Oratorio Anthology (Soprano), Schirmer

Geiriau Cymraeg: Stephen J. Williams

Cywair F fwyaf (D[♯] G)

neu:

'Chwi bobloedd rhwygwch fron', 'Os am wirfodd',

('*Ye people, rend your hearts, 'If with all your hearts*'), Mendelssohn

Eleias, Novello (8077)

Geiriau Cymraeg: T.H.Parry-Williams

Cywair F fwyaf / E^b fwyaf (F[♯] A)

Lleisiau Is - naill ai:

'Ond pwy sydd a oddef?' ('*But who may abide*'), Handel

Meseia, Novello (8338)

Geiriau Cymraeg: T.H.Parry-Williams

Cywair D leiaf (G[♯] E^b)

neu:

'Llewyrcha'r nef yn ei ogoniant' ('*Nun sheint in vollem Glanze*'), Haydn

Y Greadigaeth, Novello (8056)

Geiriau Cymraeg: Gerallt Jones

Cywair D fwyaf (F[♯] D)

neu:

'Duw Arglwydd Abraham' ('*Lord God of Abraham*'), Mendelssohn

Eleias, Novello (8077)

Geiriau Cymraeg: T.H.Parry-Williams

Cywair E^b fwyaf (B^b E)

Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)

Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol.

Rhaid i bob Unawdydd drefnu Cyfeilydd naill ai trwy ddarparu cyfeilydd eich hun neu drwy gysylltu â Swyddfa'r Urdd erbyn Mawrth 3ydd (gweler Rheol Lleisiol 8).

Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth.

22 Parti Deusain Bl.9 ac iau (Ad)

Dim hwy na 16 mewn nifer

'Ar Ddiwedd Dydd', Bronwen Lewis (tr. Elfair Jones)

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)

Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.

-
- 23 Côr BI.9 ac iau (Ad)**
17-30 mewn nifer
- 'Deffro'r Tir', Hector MacDonald**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
-
- 24 Parti Merched BI.7, 8 a 9**
12-16 mewn nifer
- 'O Cod Negesydd Mwyn', Thomas Arne**
Cwmni Cyhoeddi Gwynn (2064)
-
- 25 Parti Bechgyn BI.7, 8 a 9**
12-16 mewn nifer
- 'Dewch at eich gilydd', Clive Harwood (tr. Alistair O'Mahoney)**
Cyhoeddiadau Sain
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
- Gellir ffurfio Parti o leisiau trebl neu Barti o leisiau sydd wedi torri, ond ni ddylid eu cyfuno mewn un Parti Bechgyn.
-
- 26 Côr S.A. BI.7, 8 a 9**
20-40 mewn nifer
- 'Ymdeithgan yr Urdd', tradd. (tr. Patric Stephens)**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
- Cystadleuaeth ar gyfer lleisiau Soprano ac Alto yw hon (yn unig).
- Mae cyfle i'r bechgyn sydd â'u lleisiau wedi torri i ganu yn y Côr TB neu'r Côr SATB BI.13 ac iau.
-
- 27 Côr S.A. BI.13 ac iau**
10-20 mewn nifer
- 'Nos Sul a Baglan Bay', Huw Chiswell (tr. Luke Millard)**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
-
- 28 Côr T.B. BI.13 ac iau**
10-20 mewn nifer
- 'Tŷ ar y Mynydd', Maharishi (tr. Jeffrey Howard)**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
-
- 29 Côr S.A.T.B. BI.13 ac iau (D)**
20-40 mewn nifer
- 'Y Cwm', Huw Chiswell (tr. Alun Guy)**
I'w chanu yn yng nghywair E³ fwyaf. Copi unigol, Curiad
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
-
- 30 Côr S.A.T.B. BI.13 ac iau**
20-40 mewn nifer
- 'Am Brydferthwch Daear Lawr' ('For The Beauty Of The Earth'), John Rutter**
O.U.P. ISBN: 9780193405721
- Geiriau Cymraeg: John Morris Jones*
- Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)*
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
-

-
- 31 Ensemble Lleisiol Bl.7, 8 a 9**
3-6 mewn nifer
Digyfeiliant
- Hunan-ddewisiad**
Un darn yn unig i'w ganu yn y Gymraeg
- Amser: Dim hwy na 4 munud.
- Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir arweinydd.
- Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 31 a 33.
- Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd - [clicia yma](#)
-
- 32 Ensemble Lleisiol Bl.10 a dan 19 oed**
3-6 mewn nifer
Digyfeiliant
- Hunan-ddewisiad**
Un darn yn unig i'w ganu yn y Gymraeg
- Amser: Dim hwy na 5 munud.
- Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir arweinydd.
- Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 32 a 33.
- Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd - [clicia yma](#)
-
- 33 Ensemble Lleisiol 14-25 oed (Ae)**
3-6 mewn nifer
Digyfeiliant
- Hunan-ddewisiad**
Un darn yn unig i'w ganu yn y Gymraeg
- Amser: Dim hwy na 5 munud.
- Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir arweinydd.
- Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 31, 32 a 33.
- Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd - [clicia yma](#)
- Nid yw'r gystadlaethau hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y [3ydd o Fawrth](#).**
-
- 34 Côr S.S.A. 14-25 oed (Ae)**
16-30 mewn nifer
- 'Gwenllian', Eric Jones**
Curiaid (2030)
- Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.
- Nid yw'r gystadlaethau hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y [3ydd o Fawrth](#).**
-
- 35 Côr T.T.B. 14-25 oed (Ae)**
16-30 mewn nifer
- 'Dyma Gariad Fel y Moroedd' ('Ebenezer'), Thomas John Williams (tr. Andrew Millard)**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.
- Nid yw'r gystadlaethau hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y [3ydd o Fawrth](#).**
-

- 36 **Côr S.A.T.B. 14-25 oed (Ae)**
Dim hwy na 40 mewn nifer
- 'Y Gŵr o Gwm Penmachno', Arwel Owen (Gildas)**
(tr. Elin Angharad Davies)
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.
- Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y [3ydd o Fawrth](#).**

- 37 **Côr S.A.T.B 14-25 oed (Ae)**
Dros 40 mewn nifer
- 'Y Tangnefeddwyr', Eric Jones**
Curiad (3124)
- Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.
- Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y [3ydd o Fawrth](#).**

Canu Gwerin

- 38 **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau**
- 'Y Fasged Wyau'**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd.
Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol - [clicia yma](#)
- 39 **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.7, 8 a 9**
- 'Torth o Fara'**
Caneuon Gwerin i Blant, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd.
Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol - [clicia yma](#)
- 40 **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.10 a dan 19 oed**
- 'Adar Mân y Mynydd'**
Caneuon Traddodiadol y Cymry (Argraffiad Diwygiedig)
Cwmni Cyhoeddi Gwynn
- Cenir pennill 1 a'r 5 pennill sydd ar ochr chwith y dudalen.**
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd.
Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol - [clicia yma](#)
- 41 **Cyflwyno Alaw Werin Unigol 19-25 oed**
- 'Y 'Deryn Pur'**
Ancient National Airs of Gwent and Morganwg, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
- a Hunan-ddewisiad cyferbyniol**
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd.
Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol - [clicia yma](#)
- 42 **Côr Gwerin Tri Llais Bl.13 ac iau**
Dim hwy na 40 mewn nifer
- Hunan-ddewisiad**
- Un darn i'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd.
- Dylai mwyafrif y trefniant fod yn dri llais.
Dim hwy na 4 munud.
Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol - [clicia yma](#)

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerddoriaeth Lleisiol a Chanu Gwerin

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Cymraeg yw iaith pob darn prawf a hunan-ddewisiad.
- Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn y Rhestr Testunau. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol nac ychwaith newid cyweirnod unrhyw gystadleuaeth, oni nodir yn wahanol.
- Ni chaniateir i lais unigol ganu mewn darn parti neu gôr: os oes cyfeiriad at unawd ar y copi neu fod rhywun yn "dweud rhywbeth" yna rhaid i'r holl adran ganu'r nodau/geiriau hynny, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir i gyfeilydd addasu neu newid arddull y cyfeiliant piano: rhaid cadw at y copi.
- Rhaid i unigolion, partion a chorau ddysgu'r darnau cyflawn neu'r nifer o benillion a nodir yn y Rhestr Testunau.
- Rhaid i bartion a chorau ddod â'u cyfeilyddion ac arweinyddion eu hunain.
- Caniateir i bob cystadluydd yr **Unawd 19-25** oed ddod â chyfeilydd ei hun. Serch hynny, os am wasanaeth y cyfeilydd swyddogol, rhaid trefnu hynny (trwy Swyddfa'r Eisteddfod) erbyn **Mawrth 3ydd** - oni gwneir hynny, ni fydd yr Urdd yn gallu gwarantu cyfeilydd i chi yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Lle mae hunan-ddewisiad, rhaid uwchlwytho copi cyflawn wrth gofrestru ar-lein. Y mae copi cyflawn yn cynnwys yr holl rannau o dan ei gilydd mewn sgôr ac mewn un ddogfen PDF yn hytrach na chyfres o luniau ffôn.
- Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, (yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano), yng nghystadlaethau rhifau **10, 11, 22, 23, 25, 26, 27, 28, 29, 30 a 36**. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir. Ni chaniateir ychwanegu offerynnau yn y cystadlaethau eraill, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw, boed yn drac neu'n guriad ar beiriant electronig, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.
- Gwerin** - Dylid parchu mydr naturiol y geiriau sy'n gallu amrywio o bennill i bennill. Gweler y daflen gan y Gymdeithas Alawon Gwerin ar wefan yr Urdd.

Beirniad

Lleisiol: Jessica Robinson, D Huw Rees, J. Eirian Jones, Mari Lloyd Pritchard, Rhiannon Lewis, Robot Arwyn, Rhian Mair Lewis, Aled Maddock, Fflur Wyn

Gwerin: Jennifer Clarke

Cyfeilyddion: Branwen Evans, Nia Edwards, Meinir Jones Parry

Cerddoriaeth Offerynnol

| | | |
|----|---|--|
| 43 | Unawd Telyn Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud |
| 44 | Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud |
| 45 | Unawd Gitâr Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud Gweler Rheolau a Manylion Cystadlaethau Offerynnol ar dudalen 28 . Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. |
| 46 | Unawd Chwythbrennau Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud |
| 47 | Unawd Pres Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud |

Dyddiad cau
cofrestru:
27ain o Ionawr

| | | |
|----|---|--|
| 48 | Unawd Piano Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud |
| 49 | Unawd Offer Taro Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud Gweler Rheol Offerynnol 7 (tudalen 28) ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadluaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. |
| 50 | Parti Recorder Bl.6 ac iau Dim mwy nag 16 mewn nifer | 'Aria o Briodas Figaro', Mozart <i>Brass Wind Publications</i> a Hunan-ddewisiad Teiran neu fwy. Y cyfan heb fod yn hwy na 3 munud Disgwylir i'r grŵp ddarparu copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler rheol offerynnol rhif 5). Gellir cynnwys recorders gwahanol. Caniateir arweinydd. Ni chaniateir cyfeilydd. |
| 51 | Ensemble Offerynnol Bl.6 ac iau 3-10 mewn nifer | Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 3 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir parti recorder. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o sgôr cyflawn y gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol rhif 5). |
| 52 | Cerddorfa/Band Bl.6 ac iau Dros 10 mewn nifer | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud. Caniateir unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio parti recorder. Caniateir hyd at dri munud i osod a thiwnio. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o sgôr cyflawn y gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol rhif 5). |
| 53 | Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Bl.6 ac iau Dim mwy na 30 mewn nifer | Dur a Môr Heb fod yn hwy na 4 munud. Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol. Unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio parti recorder. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Disgwylir i bob grŵp fod yn barod i berfformio'n syth ar ôl cyrraedd y llwyfan. |
| 54 | Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Difrifol a Chymedrol) Dim mwy na 30 mewn nifer | Dur a Môr Heb fod yn hwy na 4 munud. Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Disgwylir i bob grŵp fod yn barod i berfformio'n syth ar ôl cyrraedd y llwyfan. Ni chynhelir y gystadluaeth hon yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth. Cynhelir rhagwrandawiaadau yn y Sir/Rhanbarth yn ystod mis Mawrth. Gweler tudalen yng nghefn y Rhestr Testunau os am gystadlu. Dyddiad cau 3ydd Mawrth 2025. |

| | | |
|----|--|---|
| 55 | Unawd Telyn Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 5 munud |
| 56 | Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 5 munud |
| 57 | Unawd Gitâr Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 5 munud Gweler Rheolau Offerynnol tudalen 28. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes |
| 58 | Unawd Chwythbrennau Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 5 munud |
| 59 | Unawd Pres Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 5 munud |
| 60 | Unawd Piano Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 5 munud |
| 61 | Unawd Offer Taro Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 5 munud Gweler Rheol Offerynnol 7 (tudalen 28) ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. |
| 62 | Ensemble Offerynnol Bl.7, 8 a 9 3-10 mewn nifer | Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau 55-61 gan yr un cystadleuwyr. Disgwylir i bob grŵp fod yn barod i berfformio'n syth ar ôl cyrraedd y llwyfan. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o sgôr cyflawn y gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol rhif 5). |
| 63 | Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud |
| 64 | Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.10 a dan 19 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud |

| | | |
|----|--|--|
| 65 | Unawd Gitâr Bl.10 a dan 19 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud Gweler Rheolau Offerynnol tudalen 28. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. |
| 66 | Unawd Chwythbrennau Bl.10 a dan 19 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud |
| 67 | Unawd Pres Bl.10 a dan 19 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud |
| 68 | Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud |
| 69 | Unawd Offer Taro Bl.10 a dan 19 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud Gweler Rheol Offerynnol 7 (tudalen 28) ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. |
| 70 | Deuawd Offerynnol Bl.13 ac iau | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud Ni chaniateir perfformio yr un darn/au yn y cystadlaethau unigol (43-49) (55-61) (63-69). Cystadleuaeth ar gyfer dau berson yn unig yw hon. Ni chaniateir ee. dau fflwt a chyfeiliant piano (dyweder). Os yn dewis offeryn a phiano neu delyn, rhaid sicrhau darn addas, gyda'r ddau offeryn yn derbyn yr un sylw o ran y deunydd thematig. |
| 71 | Ensemble Offerynnol Bl.10 a dan 19 oed 3-10 mewn nifer | Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 7 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Gellir cynnwys unrhyw gyfuniad o offerynnau. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau (63-70) gan yr un cystaddeuwyr. Disgwylir i'r ensemble gyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol rhif 5). Rhaid i holl aelodau 'Ysgol' fod yn ddisgyblion yr ysgol honno. |
| 72 | Unawd Offerynnol 19-25 oed | Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 7 munud Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth. |

73 **Cerddorfa/Band dan 19 oed** Dim llai na 10 mewn nifer

Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 8 munud

Caniateir hyd at 5 munud i diwnio. Caniateir arweinydd.

Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol rhif 5). Rhaid i holl aelodau y Band/Cerddorfa Ysgol fod yn ddisgyblion yr ysgol honno.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Offerynnol

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid i bob cystadleuydd berfformio'r un darn/au ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- 3 Rhaid i'r perfformiad gadw o fewn y terfyn amser a dylid amseru o'r nodyn cyntaf (yr unawdydd neu'r cyfeilydd) i'r nodyn olaf gan gynnwys unrhyw fylchau sydd rhwng symudiadau neu ddarnau. Gweler [Rheolau Eisteddfod \(3\)](#), tudalen 8
- 4 Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw, boed yn drac neu'n gyfeiliant ar beiriant electronig ac eithrio'r cystadlaethau Unawd Gitâr ac Offer Taro lle caniateir traciau offerynnol/yn yr iaith Gymraeg. Ni ddylai'r trac hwn gynnwys y rhan a berfformir gan y cystadleuydd.
- 5 Rhaid uwchlwytho copi cyflawn o'r darn hunan-ddewisiad wrth gofrestru ar-lein. Y mae copi cyflawn yn cynnwys yr holl rannau [o dan ei gilydd](#) mewn sgôr ac mewn un ddogfen PDF yn hytrach na chyfres o luniau ffôn.
Unawd Offer Taro - Gall drymwyr yn yr Unawd Offer Taro ddarparu cynllun manwl (ar bapur) sy'n amlinellu prif nodweddion i perfformiad o adran i adran, yn hytrach na darparu copi cerddorol neu sgôr o'r gerddoriaeth.
Ensemble / Band / Cerddorfa - Disgwylir i bob ensemble, band neu gerddorfa ddarparu sgôr cyflawn o'u cerddoriaeth. Y mae sgôr yn cynnwys rhan pob offeryn o dan ei gilydd - nid set o gopiau offerynnau unigol.
- 6 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler tudalen [10](#).

- 7 **Drymiau:** Bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer llwyfan pob pafiliwn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac ar lwyfan yr Unawd Offer Taro. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Serch hynny, ni fydd y ddarpariaeth hon ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch/Rhanbarth.

Tympanau: Bydd yr Urdd yn darparu 3 tympan ar gyfer cystadleuaeth y cerddorfeydd os oes cais yn dod (trwy Swyddfa'r Urdd) erbyn **Mawrth 3ydd** - oni gwneir hynny, ni fydd yr Urdd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn.

Piano: Un piano yn unig sydd ym mhob pafiliwn a hynny ar ochr chwith y llwyfan o safbwynt y gynulleidfa. Nid oes hawl ei symud i'r ochr arall. Yr offerynnau disgwylid ar gyfer yr Unawdau Llinynnol yw'r ffidl, fiola, soddgrwth a'r bas dwbl; gyda'r Unawdau Gitâr yn cynnwys y gitâr acwstig, trydan a bas, banjo, iwcailili a'r mandolin.

Beirniaid

Telyn: Sian Wynn

Llinynnol: Rhian Porter

Gitâr: Neil Rosser

Chwythbrennau: William Bott

Pres: Julian Jones

Piano: Rhiannon Pritchard

Offer Taro: Meredudd Jones

Ysgolion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol: Meinir Jones Parry

Cerddoriaeth Greadigol: Meinir Jones Parry

**Dyddiad cau
cofrestru:**
3ydd o Fawrth,
2025

Band/Artist unigol

74 Band/Artist Unigol Bl.6 ac iau

Dylid cyflwyno naill ai:

- a. Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig

neu

- b. Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.

75 Band/Artist Unigol Bl.7-13

Dylid cyflwyno naill ai:

- a. Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig

neu

- b. Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Band/Artist Unigol

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth.
- Disgwylir i bob band / artist unigol anfon uwchlwytho trac sain a geiriau o'r gân wrth gofrestru. Bydd y beirniaid yn dewis pump i ymddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mhob cystadleuaeth.
- Mae'n rhaid i bob cystadluydd, gan gynnwys y cyfeilyddion, fod o fewn oedran y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb y cystadluydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler tudalen [10](#).
- Ni chaniateir defnyddio traciau cefndir na churiad trvdanol (e.e. ar allweddellau).
- Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Bydd yr Urdd yn darparu amps a set o ddrymiau. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Danfonir e-bost at bob band gyda rhestr o'r offer cerddorol sydd ar gael i'w benthg yn ystod y perfformiad.

Beirniaid
Huw Chiswell

Dyddiad cau
cofrestru:
17eg o Chwefror,
2025

Cerdd Dant

- 76 **Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac iau** 'Crwydro', Selwyn Griffith
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
Cainc: Gwenan, Nan Jones (122)
Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd
-
- 77 **Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4** 'Y Storm', T Llew Jones
Penillion y Plant, Gwasg Gomer
Cainc: Dyffryn Cân, Elfair Jones (1122)
Ceinciau'r Allwedd Cyfrol 1, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-
- 78 **Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6** 'Y Cychod Gwyn', Dic Goodman
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
Cainc: Tannau Tawe, Elfair Jones (1122)
Alaw Tawe, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-
- 79 **Deuawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau** 'Yr Esgus Perffaith', Ceri Wyn Jones
Dwli o Ddifri, Y Lolfa
Cainc: Mallt y Nos, Owain Siôn (112)
Ceinciau Penyberth, Urdd Gobaith Cymru
-
- 80 **Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (YC)**
Dim mwy na 12 mewn nifer 'Y Planedau', Mererid Hopwood
Lluniau yn fy Mhen, Atebol - allan o brint.
Elyfr: [ar gael yma](#)
Cainc: Ffridd Goch, Gwennant Pyrs (11222)
Cerddi a Cheinciau'r Cwm, Gwasg y Bwthyn
-
- 81 **Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (D)**
Dim mwy na 12 mewn nifer 'Mistar Urdd', Geraint Lloyd Owen
Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd
Cainc: Y Telor, Nia Keinor Jenkins (1122)
Ceinciau Bro Gŵyr, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
Mae rhyddid i ddefnyddio gosodiad personol, neu mae gosodiad ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn pe dymunir. Gweler rheolau cystadlu'r dysgwyr ar dudalen 9.
-
- 82 **Côr Cerdd Dant Bl.6 ac iau (YC/Ad)**
Dim mwy na 30 mewn nifer 'Fesul Tipyn', Mererid Hopwood
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
Cainc: Hyd y Llwybr, Bethan Bryn (1122)
Lobsgows, Curiad
-
- 83 **Parti Cerdd Dant Bl.6 ac iau (Unsain) (Ad)**
Dim mwy na 12 mewn nifer 'Dydd o Haf', Geraint Lloyd Owen
Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd
Hepgor pennill 3
Cainc: Cadi, Mari Watkin (1122)
Na Joio, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-

-
- 84 **Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9** **'Cân yr Afan', Cleif Harpwood**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
 Cainc: Tŷ'n Ffridd, Einir Wyn Jones (11222)
Ceinciau'r Heli, Cyhoeddiadau Sain
-
- 85 **Deuawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9** **'Hapus', Nesta Wyn Jones**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
 Cainc: Cae Steel, Owain Siôn (122)
Ceinciau Llwyndyrus, Cyhoeddiadau Sain
-
- 86 **Unawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed** **'Dawns y Don', Ceri Wyn Jones**
Allwedd y Tannau rhif 76 (2017), Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
 Cainc: CF5, Mari Watkin (1122)
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
-
- 87 **Deuawd neu Driawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed** **'Alaw', Mererid Hopwood**
Nes Draw, Gwasg Gomer / Y Lolfa
 Cainc: Madyn, Kim Lloyd Jones (112)
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
-
- 88 **Grŵp Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed** **'Ysbryd y Nos', Cleif Harpwood**
 4-8 mewn nifer
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
 Cainc: Tirymynach, Heledd Hall (11222)
Tonnau'r Tannau, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-
- 89 **Grŵp Cerdd Dant 19-25 oed** **'Ceidwad y Goleudy', Emyr Huws Jones**
 4-8 mewn nifer
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
 Cainc: Glan y Môr, Einir Wyn Jones (1122)
Ceinciau Penrhos, Cyhoeddiadau Sain
-
- 90 **Unawd Cerdd Dant 19-25 oed** **'Dangosaf iti Lendid', Dafydd Rowlands**
Mwy o Hoff Gerddi Cymru, Gwasg Gomer / Y Lolfa
Bydd corfaniad enghreifftiol ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod
 Cainc: Penygraig, Bethan Bryn (12212)
Stelcian, Curiad
-
- 91 **Deuawd neu Driawd Cerdd Dant 19-25 oed** **'Calon Lân', Gwrosydd**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
 Cainc: Bryn Iago, Iris Thomas (1122)
Ceinciau Bro Gŵyr, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-
- 92 **Parti Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9** **'Gyda'n Gilydd', Robin Llwyd ab Owain**
 Dim hwy na 20 mewn nifer
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
 Cainc: Waun Hir, Menai Williams (1122)
Ceinciau'r Dyffryn a Mwy, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-

| | | |
|----|--|---|
| 93 | Parti Cerdd Dant BI.9 ac iau (Ad) Dim hwy na 20 mewn nifer | 'Dianc', Mererid Hopwood <i>Ar Bwys, Y Lolfa</i> |
| | | Cainc: Gwenllian, Gwennant Pyrs (112) <i>Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill, Curiad</i> |
| 94 | Côr Cerdd Dant BI.13 ac iau Dim hwy na 30 mewn nifer | 'Diwrnod Arall', Geraint Griffiths <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> |
| | | Cainc: Trefynach, Owain Siôn (1122) <i>Ceinciau Llwyndyrus, Cyhoeddiadau Sain</i> <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> |
| 95 | Parti Cerdd Dant 14–25 oed (Ae) Dim hwy na 20 mewn nifer | 'Ym Mhenrhyn Gŵyr', Mererid Hopwood <i>Nes Draw, Gwasg Gomer / Y Lolfa</i> |
| | | Cainc: Aran Benllyn 2, Gwennant Pyrs (1122) <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> |

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerdd Dant

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Mae canllawiau gosod ar gyfer cystadlaethau'r adran hon ar gael trwy gysylltu â Chymdeithas Cerdd Dant Cymru. www.cerdd-dant.org
- Dilynwch drefniant pob cainc a nodir yn y Rhestr Testunau. Gellir ychwanegu triniaeth offerynnol â/neu leisiol at y gainc, ond ni chaniateir i unrhyw offeryn heblaw'r delyn/telnyau swyddogol chwarae'r trefniant llawn.
- Rhaid i holl gystadleuwyr yr adran Cerdd Dant dderbyn gwasanaeth telynorion swyddogol yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol ar y Llwyfan (gweler eithriad yng nghystadlaethau rhifau **80, 81, 82, 83, 92, 93, 94 a 95**). Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau gwasanaeth telynor i'r Eisteddfodau hyn, ond pe cyfyd anhawster fe ganiateir defnyddio piano. Rhaid sicrhau y bydd pob cystadleuydd yn perfformio o dan yr un amodau ym mhob achos. h.y. un cyfeilydd swyddogol ar gyfer y cystadlaethau fel y nodwyd uchod.
- Yng nghystadlaethau rhifau **80, 81, 82, 83, 92, 93, 94 a 95**, rhaid defnyddio dwy delyn ar y Llwyfan. Gall yr ail delyn naill ai fod o ddewis y cystadleuydd a'r telynor o dan 30 oed neu'r ail delynor swyddogol sydd a'i h/enw gyferbyn â'r gystadlaethau.
- Ystyrir y defnydd o delynor ychwanegol at y ddwy delyn fel rhan o ensemble a rhaid iddynt, fel unrhyw offerynnwr arall a ddefnyddir fod o dan 30 oed. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sy'n canu.
- Os dymunir newid cyweirnod gwreiddiol y gainc, dylid cyfyngu'r newid i dôn a hanner o'r naill ochr i'r cyweirnod gwreiddiol.
- Dylai'r cystadleuydd a'r telynor sefydlu'r amseriad cyn dechrau canu.
- Ni chaniateir cynorthwyo cystadleuydd mewn unrhyw fodd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa.
- Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler tudalen [10](#).
- Mae rhyddid i'r gosodwyr / hyfforddwyr ddefnyddio cyfuniad o unsain, deulais, trillais ayyb fel y mynnant, ar wahân i pan nodir Parti Unsain.

Beirniaid Ann Fox, Einir Wyn Jones, Lleucu Arfon (Cynradd), Elfair Jones (Uwchradd), Elin Maher, Mari Watkin, Owain Siôn Williams
Telynorion Dylan Cernyw, Dafydd Huw, Kim Lloyd Jones, Nia Keinor Jenkins, Heledd Ifan Davies, Gwawr Taylor

CogUrdd

Dyddiad cau
cofrestru:
21 o Hydref
2024

96 **CogUrdd Bl.4, 5 a 6**

97 **CogUrdd Bl.7, 8 a 9**

98 **CogUrdd Bl.10 a dan 19 oed**

99 **CogUrdd 19-25 oed**

100 **PobUrdd Bl.4, 5 a 6**

101 **PobUrdd Bl.7 a dan 19 oed**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau CogUrdd

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Rhaid cofrestru pob cystadleuydd cyn cystadlu yng nghystadleuaeth CogUrdd. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru fydd 21 Hydref 2024.
- Cyfrifoldeb yr ysgol/gangen fydd cynnal rownd ysgol erbyn 21 Hydref 2024.
- Trefnir dyddiad rownd rhanbarthol gan eich Swyddog Cymunedol lleol cyn 6 Rhagfyr 2024
- Darperir Pecyn Beirniaid pwrpasol gyda chanllawiau a ffurflen farcio i'ch cynorthwyo gyda threfnu'r rownd gyntaf. Os hoffech dderbyn copi, cysylltwch â'ch Swyddog Cymunedol lleol.
- Dyddiad cau cofrestru ar gyfer CogUrdd 19-25 oed fydd 16 Rhagfyr 2024. Trefnir dyddiad rownd rhanbarthol gan Drefnydd Cynorthwyol Eisteddfod yr Urdd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Am fwy o fanylion, cliciwch ar y linc isod i weld y pecyn gwybodaeth.
- Bydd pecyn ryseitiau a chyfarwyddiadau CogUrdd ar gael o fis Medi ymlaen ar wefan Eisteddfod yr Urdd.
Pecyn Gwybodaeth CogUrdd - [Cliciwch yma](#)
Pecyn Gwybodaeth CogUrdd 19-25 oed - [Cliciwch yma](#)
Pecyn Gwybodaeth PobUrdd - [Cliciwch yma](#)

Dawnsio Gwerin

Dyddiad cau
cofrestru:
27ain o Ionawr,
2025

102 **Dawns Werin Bl.4 ac iau**

'Dawns Cemaes', Eddie Jones
Hwyl y Ddawns Werin, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

Ar yr alaw:: Ffani Blodau'r Ffair
Blodau'r Grug, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

103 **Dawns Werin Bl.6 ac iau**
Ysgolion hyd at 100 o blant rhwng 4-11 oed

'Trefn y Draffordd', Idwal Williams
O Dro i Dro, GIW

104 **Dawns Werin Bl.6 ac iau**
Ysgolion dros 100 o blant rhwng 4-11 oed ac Adrannau

'Triawdau Alltacham', Ian Roberts
Pamffled, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

| | |
|--|--|
| <p>105 Dawns Stepio Grŵp Bl.6 ac iau Dim llai na dau mewn nifer</p> | <p>Hunan-ddewisiad Cyflwyniad gan 2 neu fwy o ddawnswyr. Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naw. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 3 munud</p> |
| <p>106 Dawns Werin Bl.7, 8 a 9</p> | <p>'Ceiliog y Rhedyn', Traddodiadol <i>Dawnsiau Ffair Nantgarw, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i></p> |
| <p>107 Dawns Werin Bl.10 a dan 19 oed</p> | <p>'Tribant Morganwg', Emyr Jones <i>Dawnsiau'r Ugeinfed Ganrif, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i></p> |
| <p>108 Dawns Werin Bl.9 a dan 25 oed (Ae/UAd)</p> | <p>'Y Filltir Sgwar', Mavis Williams Roberts <i>Pamffled, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i> Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed, a phawb o dan 30 oed.</p> |
| <p>109 Dawns Stepio Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.9 ac iau</p> | <p>Hunan-ddewisiad Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naw. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 3 munud</p> |
| <p>110 Dawns Stepio Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.9 ac iau</p> | <p>Hunan-ddewisiad Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naw. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 3 munud</p> |
| <p>111 Dawns Stepio Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.10 ac o dan 25 oed</p> | <p>Morfa Rhuddlan, Traddodiadol <i>Dawnsiau Ffair Nantgarw, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i> Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naw. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 4 munud Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth.</p> |

**112 Dawns Stepio Mewn Arddull Draddodiadol
Bechgyn BI.10 a dan 25 oed**

Dawns yn portreadu diwydiant dur y Fro

Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws.

Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.

Dim hwy na 4 munud

113 Dawns Stepio Grŵp dan 25 oed
Dim hwy na 6 mewn nifer

Cyflwyniad yn seliedig ar Rîl Gŵyr

Lyfr Huw Mellor, - 'Welsh Folk Dances' (Cymdeithas Ddawns Werin Cymru)

Dawns ar gyfer 6 person neu lai gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws.

Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.

Dim hwy na 4 munud

114 Dawns Stepio BI.7 a dan 25 oed
Dim llai na 6 mewn nifer

Dawns yn seiliedig ar y gerdd 'Glas' Bryan Martin Davies

Cyflwyniad o ddawns draddodiadol a/neu gyfoes gan grŵp o ddawnsywyr cymysg heb fod yn llai na 6 pherson mewn nifer yn defnyddio arddull, camau a phatrymau Cymreig. Caniateir diwyg gyfoes o ran gwisg a cherddoriaeth.

Dim hwy na 5 munud

Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Rhaid i'r mwyafrif o aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawnsio Gwerin

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.
- 3 Ni chaniateir i'r hyfforddwyr osod y dawnsywyr yn eu lle ar gychwyn cystadlaethau Dawns ar Llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Gweler Rheol Amser (3) [tudalen 8](#).
- 4 Rhaid i gystadlwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau.
- 5 Yn ychwanegol at y brif alaw, caniateir defnyddio unrhyw alawon traddodiadol Cymreig neu wreiddiol draddodiadol eu naws (oni nodir yn wahanol) a fyddo'n addas fel cyfeiliant. Dylid cychwyn a gorffen pob Dawns Werin gyda'r alaw wreiddiol, oni nodir yn wahanol.
- 6 Os na nodir rhif penodol o ddawnsywyr, caniateir defnyddio unrhyw nifer addas at ofynion y ddawns.
- 7 Disgwylir i bartïon ac unigolion wneud pob ymdrech i sicrhau cyfeiliant byw i'w dawns, ond caniateir defnyddio cerddoriaeth wedi'i recordio ymlaen llaw, oni nodir yn wahanol. Os bydd cydraddoldeb yn y dawnsio,

yna fe ystyrir natur y cyfeiliant. Caniateir newid y cyweirnod.

- 8 Cyfrifoldeb y cystadluydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler [Tudalen 10](#).
- 9 Caniateir i bartïon ddefnyddio hyd at dri chyfeilydd dros 25 oed ymhlith y cyfeilyddion.
- 10 Disgwylir i'r gwisgoedd, gan gynnwys esgidiau, ychwanegu at awyrgylch a chyfanrwydd y cyflwyniad
- 11 Wrth ffurfio partiön dawnsio gwerin, dylid glynu at gyfarwyddiadau'r ddawns o ran cyfansoddiad y parti.

Beirniaid: Dewi Rhisiart, Morwel Palmer, Myfanwy Rees (Dawnsio Gwerin a Chloccio), Mair Eleri Jones (Dawnsio Gwerin a Chloccio), Bethanne Williams (Dawnsio Gwerin a Chloccio), Daniel Calan Jones (Cloccio)

Dawns

Dyddiad cau
cofrestru:
27ain o Ionawr

| | | |
|-----|--|--|
| 115 | Dawns Greadigol BI.6 ac iau (YC/Ad) Dim llai na 4 mewn nifer | Defnyddio y print hwn gan Hannah Davies fel ysbrydoliaeth i'ch dawns - darn yma Dim hwy na 4 munud |
| 116 | Dawns Aml-Gyfrwng BI.6 ac iau Dim llai na 4 mewn nifer | Pan fyddaf yn hŷn Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull gyferbyniol. Dim hwy na 4 munud |
| 117 | Grŵp Dawns Creadigol Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Difrifol a Chymedrol) Dim hwy na 30 mewn nifer | Am ddiwrnod braf Dim hwy na 4 munud |
| 118 | Dawns Greadigol BI.7 a dan 25 oed Dim llai na 4 mewn nifer | Atgofion Dim hwy na 4 munud |
| 119 | Dawns Aml-Gyfrwng BI.7 a dan 25 Dim llai na 4 mewn nifer | Y Ddinas Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull gyferbyniol. Dim hwy na 4 munud |

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawns

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.
Gweler Rheol Amser (3) [tudalen 8](#).
- Ni chaniateir i'r hyfforddwy'r osod y dawnsywyr yn eu lle ar gychwyn cystadleuaeth yn unrhyw un o Eisteddfodau'r Urdd.
- Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler [tudalen 10](#).
- Disgwylir i'r dawnsywyr wisgo dillad addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.
- Arwynebedd perfformio llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw tua 10 x 8 metr.

Creadigol Ni chaniateir defnyddio offer llwyfan, propiau na goleuadau arbennig, colur, ategolion corff nac unrhyw gyfarpar arall - ac eithrio yn y gystadleuaeth Grŵp Dawns Creadigol i Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim hwy na 100 gair, yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru, ac ni ddylid defnyddio symudiadau yn ystod y crynodeb. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf.

Dawns Aml-Gyfrwng Dehongliad creadigol o thema drwy gyfrwng arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull gyferbyniol. Ceir defnyddio gwisgoedd addas a mân bropiau er mwyn dehongli'r thema, a rhaid iddynt fod yn syml, addas a chludadwy gan yr unigolion fydd yn eu defnyddio. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim hwy na 100 gair, yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru na'i feirniadu. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull

- Ni chaniateir cystadlu mewn mwy nag un gystadleuaeth gyda'r un ddawns.
- Mae'n hanfodol fod yr hyfforddiant y mae'r dawnsywyr yn ei dderbyn yn ystyried agweddau a rheolau iechyd a diogelwch. Rhaid sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad.
- Rhaid uwchlwytho crynodeb y ddawns greadigol a'r aml gyfrwng wrth gofrestru ar [Y Porth](#) erbyn y dyddiad cau.

Beirniad Jalisa Phoenix-Roberts, Cerys Lewis a Lauren Phillips

Dawnsio Creadigol Anghenion Dysgu Ychwanegol I'w gadarnhau

Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo

Dyddiad cau
cofrestru:
27ain o Ionawr
2025

| | | |
|-----|--|---|
| 120 | Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Unigol Bl.6 ac iau | Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg Dim hwy na 2 funud |
| 121 | Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl.6 ac iau Dim llai na 4 mewn nifer | Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg Dim hwy na 3 munud |
| 122 | Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Unigol Bl.7, 8 a 9 | Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg Dim hwy na 2 funud |
| 123 | Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl.7 a dan 19 oed Dim llai na 4 mewn nifer | Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg Dim hwy na 3 munud |
| 124 | Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Unigol Bl.10 a dan 25 oed | Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg Dim hwy na 2 funud |
| 125 | Pâr neu Driawd HipHop/Stryd/Disgo o dan 25 oed | Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg Dim hwy na 3 munud |

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawnsio Hip Hop/Stryd/Disgo

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf. Gweler Rheol Amser (3) [tudalen 8](#).
- Ni chaniateir i'r hyfforddwy'r osod y dawnsywyr (nac unrhyw fân bropiau) yn eu lle ar gychwyn cystadleuaeth yn unrhyw un o Eisteddfodau'r Urdd.
- Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler [tudalen 10](#).
- Disgwyllir i'r dawnsywyr wisgo dillad addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.
- Rhaid i bob symudiad fod o fewn cyd-destun yr arddull dawns ac i'r coreograffi ganolbwyntio ar y stepiau dawns.
- Mae'n hanfodol fod yr hyfforddiant y mae'r dawnsywyr yn ei dderbyn yn ystyried agweddau a rheolau iechyd a diogelwch. Rhaid sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad
- Rhaid darparu cyfeiliant ar ffurf MP3 neu WAV a chael copi caled ar CD neu USB rhag ofn. Ni ddylai hyd y trac fod yn hwy na'r hyd a nodir. Rhaid uwchlwytho y trac wrth gofrestru ar [Y Porth](#) erbyn y dyddiad cau.
- Ni chaniateir defnyddio propiau.

Beirniaid Hip Hop/Stryd/Disgo

Jalisa Phoenix-Roberts, Cerys Lewis a Lauren Phillips

Llefaru

Dyddiad cau
cofrestru:
17eg o Chwefror
2025

| | | |
|-----|---|--|
| 126 | Llefaru Unigol Bl.2 ac iau | 'Cwyn y ci', Ceri Wyn Jones <i>Dwli o Ddifri, Y Lolfa</i> |
| 127 | Llefaru Unigol Bl.3 a 4 | 'Mae'r byd, fel mae, yn well!', Mererid Hopwood <i>Byd Llawn Hud, Y Lolfa</i> |
| 128 | Llefaru Unigol Bl.5 a 6 | 'Rwy'n gwybod', Meirion MacIntyre Huws <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> |
| 129 | Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau 6-12 mewn nifer | 'Pen i waered', Dewi Pws <i>Wps!, Y Lolfa</i> |
| 130 | Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (Ad) 6-12 mewn nifer | 'Ni yw'r Deinasoriaid', Casia Wiliam <i>Clywch ni'n rhuo nawr, Gwasg Carreg Gwalch</i> Ni chaniateir addasu'r dafodiaith yma |
| 131 | Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9 | 'Draig Wen, Draig Goch', Myrddin ap Dafydd <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> |
| 132 | Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau (Ad) 6-16 mewn nifer | 'Y tŷ llawn', Myrddin ap Dafydd <i>Stori Cymru - Hanesion a Baledi, Gwasg Carreg Gwalch</i> |
| 133 | Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9 6-16 mewn nifer | 'Sbarclar', Menna Thomas <i>Sbectol Inc, Y Lolfa</i> |
